

## **Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da i Blant Cyn Oed Ysgol - Pecyn cymorth cyfryngau cymdeithasol**

Mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o ymgysylltu â'ch cymunedol leol am fanteision llyfrau a darllen.

Yn y pecyn cymorth hwn, rydym yn rhannu lluniau a negeseuon a argymhellir i'ch helpu i siarad am yr hyn yr ydych yn ei wneud. Chi sy'n adnabod eich cymuned orau, felly mae croeso i chi deilwra'r rhain i gyd-fynd â'ch llais a'ch arddull.

### **Tagiau a dolenni defnyddiol**

Byddem wrth ein boddau o gael gweld beth rydych chi'n ei wneud, felly mae croeso i chi ein tagio yn unrhyw un o'ch negeseuon gan ddefnyddio **@BookTrustCymru** ar X (Twitter gynt) a Facebook, neu gallwch ddefnyddio **@BookTrust** i'n tagio yn eich negeseuon Instagram a LinkedIn.

- Byddai hefyd yn wych pe gallech ddefnyddio'r hashnod **#DechrauDa** neu **#Bookstart**

Os hoffech gyfeirio at ein gwefan, dyma rai dolenni defnyddiol:

- Ein hafan: **[booktrust.org.uk/cymru](http://booktrust.org.uk/cymru)**
- Ein Hyb Teuluoedd: **[booktrust.org.uk/familyhubwales](http://booktrust.org.uk/familyhubwales)**
- Bookfinder BookTrust: **[booktrust.org.uk/bookfinder](http://booktrust.org.uk/bookfinder)**
- Amser Rhigwm Mawr Cymru BookTrust Cymru ar gyfer fideos a gweithgareddau rhigymau: **[booktrust.org.uk/cy-gb/bigwelshrhymetime](http://booktrust.org.uk/cy-gb/bigwelshrhymetime)**

### **Asedau**

Rydym yn darparu lluniau cyfryngau cymdeithasol y gallwch eu defnyddio ar X (Twitter gynt), Facebook, Instagram a LinkedIn - gallwch ddod o hyd iddynt yn y ffolder **Asedau**.

Rydym yn argymhell defnyddio lluniau **tirlun** ar gyfer X a LinkedIn, lluniau **sgwâr** ar gyfer Facebook a'r grid Instagram, a lluniau **portread** ar gyfer Instagram Stories.

## Copi cyfryngau cymdeithasol awgrymedig

Yma, rydym yn rhannu copi awgrymedig ar gyfer eich negeseuon cyfryngau cymdeithasol – ond mae croeso i chi olygu'r rhain fel sy'n briodol i chi a'r teuluoedd yr ydych yn gweithio â nhw.

- Rydym yn falch iawn o fod yn rhannu pecynnau Plant Bach / Cyn Oed Ysgol **#DechrauDa** â theuluoedd yn [lleoliad yma]! Darganfyddwch fwy trwy [ymweld â'n gwefan... / galw i mewn i...]
- Mae darllen yn **ANHYGOEL!** Mae ymchwil yn dangos bod darllen yn cynorthwyo plant i ddatblygu gwella llesiant meddwl, i wneud yn well yn yr ysgol a dangos mwy o ddychymyg a chreadigrwydd – ceir cyngor da i'ch rhoi ar ben ffordd ar wefan **@BookTrustCymru** yma: **booktrust.org.uk/cy-gb/familyhubwales**
- Mae darllen yn **WYCH** i'ch plant! Mae ymchwil yn dangos bod darllen yn cynorthwyo plant i:
  - ddatblygu gwell llesiant meddwl a sgiliau cymdeithasol
  - gwneud yn well yn yr ysgol
  - dangos mwy o ddychymyg a chreadigrwydd Cysylltwch â ni yn [dolen/e-bost/ffôn] / Galwch i mewn i [lleoliad] i ddarganfod sut y gallwn eich helpu i ddechrau rhannu llyfrau a straeon gyda'ch gilydd!
- Gall rhannu llyfrau gyda'ch plant eich helpu i ddatblygu perthynas ac mae'n eu paratoi ar gyfer y dyfodol! Gallwch gael syniadau ar gyfer lyfrau gwych y byddwch i gyd yn eu mwynhau gyda'r **#Bookfinder** gan **@BookTrust**: **booktrust.org.uk/books-and-reading/bookfinder/**
- A ydych chi wedi cael pecyn Plant Bach **#DechrauDa** neu Blant Cyn Oed Ysgol **#DechrauDa** gennym ni? Darganfyddwch lawer o weithgareddau, awgrymiadau a phethau difyr i'ch helpu i barhau i ddarllen gyda'ch teulu ar wefan **@BookTrustCymru**: **booktrust.org.uk/familyhubwales**
- Gallwn eich helpu chi a'ch teulu ddechrau darllen! Galwch i mewn i [lleoliad] / Cysylltwch ar [manylion cyswllt] i ddarganfod sut y gallwn eich helpu i roi'r cychwyn gorau i'ch plentyn gyda llyfrau...

- Wyddoch chi beth? Does DIM ffordd anghywir o rannu stori... y peth pwysicaf yw mwynhau!
- Nid yw byth yn rhy hwyr i ddechrau rhannu straeon! Gallwn eich helpu chi a'ch teulu i ddarganfod manteision anhygoel darllen - [galwch i mewn/cysylltwch] i ddarganfod mwy.
- Nid oes rhaid i chi ddarllen llyfr o glawr i glawr i fwynhau manteision anhygoel darllen gyda'ch plentyn. Gallwch roi'ch trwyn i mewn ac allan, edrych ar y lluniau, adrodd eich straeon eich hun ac yn bwysicaf oll, mwynhau!
- Nid yw darllen ar gyfer amser gwely neu amser tawel yn unig – gallwch rannu straeon yn unrhyw le ar unrhyw adeg. Rhowch lyfr yn eich bag pan fyddwch yn mynd allan neu rhowch gynnig ar greu eich straeon eich hun y bydd eich plentyn yn eu caru!

## Cyngor ac awgrymiadau cynorthwyol

- Mwynhewch! Mae cyfryngau cymdeithasol yn gyfle gwych i siarad â theuluoedd a rhannu eich neges, felly mwynhewch eich hun.
- Ceisiwch ddefnyddio lluniau yn eich negeseuon bob amser os yw'n bosibl (gallwch ddefnyddio'r asedau yr ydym wedi eu darparu yn y pecyn cymorth hwn).
- Mae'n wych cael galwad i weithredu yn eich negeseuon cyfryngau cymdeithasol – dolen i ddigwyddiad, gwahoddiad i wneud sylw, neu anogaeth i gymryd rhan – ond peidiwch â phoeni os na allwch feddwl am ddim i'w gynnwys... mae rhannu sylwadau cyffredinol am fanteision rhannu straeon yn wych hefyd!

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â thîm BookTrust Cymru: [booktrustcymru@booktrust.org.uk](mailto:booktrustcymru@booktrust.org.uk)

[booktrust.org.uk/cymru](https://booktrust.org.uk/cymru)

Dilynwch ni ar y cyfryngau  
cymdeithasol @BookTrustCymru

©2024 BookTrust. Rhif elusen 313343

